



John Griffiths AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

[SeneddCymunedau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCymunedau@cynulliad.cymru)

13 Mawrth 2019

Annwyl John,

Yn ystod proses graffu Cyfnod 2 o'r Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru), ymrwymodd y cyn Weinidog Tai, Rebecca Evans, i roi sylw pellach i gynnwys taliadau'r Fargen Werdd fel taliad a ganiateir o dan y Bil a dywedodd y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor am y syniadau sy'n gysylltiedig â'r cynllun cyfathrebu.

O ran taliadau'r Fargen Werdd, gallai paragraff 7 o Atodlen 1 o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 (taliadau a ganiateir mewn perthynas â darparu cyfleustodau), gael ei ystyried yn ddigon eang i gynnwys ad-daliadau benthyciad y Fargen Werdd. Fodd bynnag, o roi mwy o ystyriaeth i hyn, rwy'n cydnabod y gallai hynny gael ei ystyried mewn sawl ffordd wahanol pan gaiff y Bil ei ddeddfu.

Cyflwynodd Leanne Wood AC welliant yng Nghyfnod 2, a oedd, ymhlith pethau eraill, yn ceisio cynnwys ad-daliadau benthyciad y Fargen Werdd fel taliad a ganiateir. Rwyf bellach wedi gallu gweithio gyda Leanne i wneud gwelliant yng Nghyfnod 3 sy'n gyson â'r hyn sydd wedi'i nodi yn Atodlen 1 o'r Bil.

O ran cynllun cyfathrebu ar gyfer y Bil, rwy'n cefnogi safbwynt Mr Melding yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor, pan ddyfynnodd farn y Sefydliad Tai Siartredig, sef "...*there must be a comprehensive and clear programme of supported communication activity to ensure the public are aware of what fees incorporate and therefore what enacting this legislation could mean for those renting in the future.*" Rwyf hefyd yn cefnogi ei bwynt fod angen i unrhyw ymgyrch gynnwys pob parti sy'n cael eu heffeithio gan y Bil - landlordiaid, asiantiaid, tenantiaid, darpar denantiaid a deiliaid contract o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Er mwyn helpu i sicrhau bod darpar denantiaid yn ymwybodol o'r newidiadau, bydd yr ymgyrch yn cynnwys dull targedu cyffredinol wrth godi ymwybyddiaeth. Bydd hynny'n cynnwys hybu manteision y ddeddfwriaeth ar gyfer y rheini sydd am rentu yn y sector rhentu preifat, a bydd hefyd yn rhoi eglurder am y taliadau hynny a ganiateir. Rydym yn bwriadu cydweithio â sefydliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys er enghraifft Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a Shelter, er mwyn lledaenu gwybodaeth allweddol i bobl sydd eisoes yn rhentu yn y sector rhentu preifat.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae landlordiaid ac asiantiaid yn gynulleidfa darged allweddol ar gyfer yr ymgyrch hon hefyd. Mae'n hanfodol wrth gwrs fod y goblygiadau a'r dyddiad y bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym yn hysbys i'r rheini sy'n berchen ar eiddo, ac yn rhentu a rheoli eiddo.

Mae eisoes yn ofynnol i landlordiaid ac asiantiaid fod wedi eu cofrestru neu eu trwyddedu â'r awdurdod trwyddedu sydd wedi'i dynodi o dan adran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sef *Rhentu Doeth Cymru*. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle y mae hynny'n ei gynnig drwy gydweithio'n agos â Rhentu Doeth Cymru, gan gyfathrebu'r newidiadau drwy randdeiliaid fel sefydliadau cynrychiadol a chymdeithasau proffesiynol.

Bydd yr ymgyrch yn dechrau cyn i'r Bil ddod i rym. Mae llwyddiant y Bil, pe byddai'n dod i rym, yn ddibynnol ar sicrhau y gall tenantiaid wneud penderfyniadau deallus a bod landlordiaid ac asiantiaid yn ymwybodol o'r gyfraith. O ran y landlordiaid ac asiantiaid hynny, mae hefyd yn bwysig ganiatáu digon o amser ymlaen llaw iddynt gael paratoi ar gyfer y newidiadau.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi'r wybodaeth ychwanegol yr oeddech am ei gwybod yn ystod y cam hwn o'r broses ddeddfwriaethol.

Yn gywir,



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government